

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid 2014

## Crynodeb i bobl ifanc

YJB
Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid eisiau gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael y siawns gorau posibl i fyw bywydau sy'n llawn cyfleoedd.

I wneud hyn, rydyn ni'n gwybod bod angen help a chefnogaeth ar rai pobl ifanc i'w hatal rhag troseddu neu aildroseddu.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cadw llygad ar yr holl waith y mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn ei wneud ledled Cymru a Lloegr.

Mae'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru'n cynnwys llawer o wahanol wasanaethau sy'n cydweithio.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau y mae Llywodraeth Cymru'n gofalu amdanyn nhw, fel iechyd, tai, addysg a gwasanaethau cymdeithasol, a
- gwasanaethau y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanyn nhw, fel yr Heddlu a llysoedd.

Mae bod â chofnod troseddol yn gallu golygu bod pobl ifanc yn methu cyfleoedd ac mae'n gwneud bywyd yn fwy anodd, felly rydyn ni eisiau gwneud popeth y gallwn i atal hyn rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae'r strategaeth yma'n manylu ar ein gweledigaeth i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc, ac mae'n rhoi fframwaith i ni fel ein bod ni'n cydweithio'n well.

"Mae llawer o bobl ifanc yn troseddu dim ond i fachu sylw eu teuluoedd a chael cymorth gwasanaethau, ac maen nhw'n aildroseddu er mwyn dal i gael cymorth. Mae'n anodd cefnu ar hyn."



**Sylw Person Ifanc**

# Cyflwyniad

## Ein Gweledigaeth.

Rydyn ni eisiau:

- i Gymru fod yn wlad lle rydyn ni i gyd yn cydweithio i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu a dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid,
- gwneud yn siŵr bod y rheiny sydd yn troseddu'n cael yr help a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw gan bawb, fel gweithwyr cymdeithasol, athrawon, gwasanaethau cyflogaeth a hyfforddiant, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau tai,
- i blant a phobl ifanc gael eu trin yn deg a chael yr help sydd ei angen arnyn nhw. Nid ydyn ni eisiau iddyn nhw fethu cael gwasanaethau oherwydd beth y maen nhw wedi'i wneud, ac
- i Gymru fod yn wlad lle mae pobl ifanc yn gallu bod yn rhan bositif o'u cymunedau, lle mae yna lai o droseddu a lle mae yna lai o ddioddefwyr trosedd.

## CCUHP.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth galon yr holl waith rydyn ni'n ei wneud. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n canolbwyntio ar hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc yn hytrach na dim ond ar eu hymddygiad.

## Pam y mae angen y strategaeth newydd yma arnom ni?

Mae llawer o waith hynod bositif wedi bod yn digwydd yng Nghymru sy'n golygu bod llai o bobl ifanc yn troseddu, ond mae nifer y rhai sy'n aildroseddu ar gynnydd. Mae angen i hyn ddod i ben!

Mae angen mwy o gefnogaeth a chymorth gwasanaethau ar y bobl ifanc yma i roi'r gorau i aildroseddu oherwydd:

- bod 81% ohonyn nhw heb unrhyw gymwysterau,
- bod 57% ohonyn nhw wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl,
- bod gan 38% ohonyn nhw anghenion addysgol arbennig, a
- bod 79% ohonyn nhw wedi bod mewn cysylltiad â Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae gan y strategaeth yma **5 maes blaenoriaeth** rydyn ni eisiau canolbwyntio arnyn nhw.

# 1 Dull o weithio mewn partneriaeth sydd wedi'i gynllunio'n dda

**Mae hyn yn golygu ein bod ni i gyd yn deall ein rhan mewn cydweithio ar draws gwasanaethau i helpu plant a phobl ifanc.**

## Canlyniadau – beth rydyn ni eisiau ei weld:

Rydyn ni eisiau i blant a phobl ifanc gael yr holl gymorth sydd ei angen arnyn nhw i beidio â throseddu, yn ogystal ag unrhyw driniaeth a chymorth sydd ei angen arnyn nhw oddi wrth yr holl wasanaethau sydd ar gael.

Rydyn ni eisiau i'r holl wasanaethau gydweithio, gan roi plant a phobl ifanc yn y canol fel eu bod yn eu cefnogi nhw â'u holl anghenion ym mhob agwedd ar eu bywydau.

## Pam?

Rydyn ni eisiau i'r plant a'r bobl ifanc i gyd gael yr holl gymorth sydd ei angen arnyn nhw, a hynny pan mae ei angen arnyn nhw, waeth lle y maen nhw'n byw yng Nghymru.

Mae'n hynod bwysig nad yw unrhyw un ifanc yn methu cael y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw.

## Sut byddwn ni'n gwneud hyn?

Mae yna lawer o ffyrdd y gallwn ni gydweithio'n well. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynnig mwy o gymorth i bobl ifanc trwy Dimau Troseddau Ieuenctid sy'n cynnwys pobl o feysydd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, addysg, yr Heddlu a gweithwyr prawf,
- gwneud yn siŵr bod pawb sy'n rheoli timau troseddau ieuenctid yn cael canllawiau newydd ynglŷn â sut i gydweithio'n well â gwasanaethau eraill,
- cydweithio ar draws holl Adrannau Llywodraeth Cymru,
- gweithio'n agosach â gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth fel eu bod nhw'n sylweddoli'n gynt pan mae angen mwy o gymorth ar blant a phobl ifanc,
- gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau iechyd sy'n cefnogi plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl yn rhan o dimau cyfiawnder ieuenctid. Bydd hyn yn golygu y bydd plant a phobl ifanc yn cael yr holl help a chefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw'n gyflymach,
- gweithio gyda gwasanaethau fel addysg, cwnselwyr, gweithwyr ieuenctid ac eraill i atal pobl ifanc rhag dechrau camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill,
- gweithio gyda gwasanaethau tai i wneud yn siŵr nad yw pobl ifanc yn ddigartref a'u bod nhw'n gallu cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw,
- gwneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol fel bod gennym ni gynlluniau cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw rhywle i fyw os ydyn nhw wedi gadael y ddalfa, neu rywun i ofalu amdanyn nhw os oes angen hynny arnyn nhw, a
- pharhau i redeg prosiectau fel prosiectau addysg, hyfforddiant, chwaraeon a chelfyddydau sy'n helpu i atal plant a phobl ifanc rhag dechrau troseddu. Mae'r prosiectau yma'n cael eu rhedeg ag arian o'r Gronfa Atal Troseddu Ymhlith Ieuenctid.

# 2 Ymyrryd cynnar, atal a dargyfeirio

**Mae hyn yn golygu camu i mewn yn gynnar i helpu i atal pobl ifanc rhag troseddu neu aildroseddu, a'u helpu nhw i ddewis llwybr gwahanol fel eu bod nhw'n cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.**



"Mae'r pethau dwi wedi bod trwyddyn nhw ers i mi droseddu wedi bod yn sioc i fy system. Mae Brysbennu wedi fy helpu i weld beth allai ddigwydd i mi yn y dyfodol os bydda' i'n aildroseddu. Dydw i'n bendant ddim eisiau cael cofnod troseddol."

Sylw Person Ifanc

## Canlyniadau – beth rydyn ni eisiau ei weld:

Rydyn ni eisiau i blant a phobl ifanc beidio â chael eu dwyn i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid oni bai bod gwir angen am hynny. Yn lle hynny, dylid eu gosod nhw ar lwybr lle gall y gwasanaethau i gyd eu cefnogi nhw.

Rydyn ni eisiau i wasanaethau herio ymddygiad troseddol ac ymateb iddo yn y ffordd iawn. Dylai pobl ifanc gael y cyfle i gywiro pethau.

## Pam?

Rydyn ni o'r farn bod atal pobl ifanc rhag dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yn rhoi cyfleoedd gwell iddyn nhw mewn bywyd. Mae bod â chofnod troseddol yn gallu gwneud bywyd yn fwy anodd o lawer, felly mae hyn yn hynod bwysig.

## Sut byddwn ni'n gwneud hyn?

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid yn cael eu cefnogi ar 3 lefel neu haen wahanol.

**Cymorth Haen 1**, camu i mewn i gefnogi teulu, yn gynnar ym mywyd plentyn. Mae gennym ni brosiectau fel Teuluoedd yn Gyntaf i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu tlodi a diweithdra, a'u helpu nhw trwy sefyllfaoedd anodd eraill. Rydyn ni hefyd yn cynnig gwybodaeth a chymorth sy'n rhad ac am ddim ac yn hawdd dod o hyd iddo.

**Cymorth Haen 2**, oddi wrth dimau troseddau ieuenctid pan mae person ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Ar y lefel yma, rydyn ni eisiau gwella'r ffordd rydyn ni'n rhannu gwybodaeth ac yn cyfathrebu ag adrannau eraill yn yr haenau eraill (neu lefel 1 a 3).

**Cymorth Haen 3**, edrych ar ymatebion eraill i drosedd yn lle cael yr heddlu'n cyhuddo pobl ifanc. Mae gennym ni brosiectau y mae'r heddlu a thimau cyfiawnder ieuenctid yn eu rhedeg o'r enwau Biwro a Brysbennu. Mae'r rhain wedi helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gwahanol.

Nid yw'r prosiectau yma'n cael eu rhedeg ym mhob rhan o Gymru ac rydyn ni eisiau gweld newid fel bod y bobl ifanc i gyd yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

# 3 Lleihau aildroseddu

Mae hyn yn golygu cefnogi plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid fel eu bod nhw'n rhoi'r gorau i aildroseddu.

## Canlyniadau – beth rydyn ni eisiau ei weld:

Rydyn ni eisiau i bobl ddeall bod rhoi plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol yn gallu bod yn beth negyddol. Mae'n gallu eu gwneud nhw'n fwy agored i niwed ac mae angen eu cadw nhw'n ddiogel rhag niwed.

Rydyn ni eisiau i bawb sy'n gweithio yn y system cyfiawnder ieuenctid fod â'r gwerthoedd, yr agweddau, yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i helpu i gefnogi plant a phobl ifanc i roi'r gorau i droseddu a byw bywydau heb unrhyw droseddu.

## Pam?

Rydyn ni'n gwybod bod gan lawer o'r bobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid fwy nag un problem y mae angen help arnyn nhw â nhw. Mae hyn yn gallu golygu eu bod nhw'n fwy tebygol o aildroseddu. Mae deall eu hanghenion yn gam mawr tuag at atal hyn.



"Mi wnes i ddod yn ôl, i mewn i'r system gan nad oedd gen i gefnogaeth fy nheulu ar ôl, i mi ddod allan - roedden nhw wedi cefnu arna' i ar ôl, fy nhrosedd gyntaf. Dwi'n benderfynol o beidio ag aildroseddu ac o gael cefnogaeth fy nheulu yn ôl, dyna i gyd dwi ei eisiau."

Sylw Person Ifanc

## Sut byddwn ni'n gwneud hyn?

Byddwn ni'n canolbwyntio ar bethau fel:

- helpu timau troseddau ieuenctid i wybod mwy am anghenion person ifanc fel bod pawb yn gwybod sut mae dedfrydau'n cael eu rheoli a'r rhan y mae'r gwasanaethau i gyd yn ei chwarae mewn rhoi cymorth,
- cefnogi timau troseddau ieuenctid fel eu bod nhw'n gallu gweithio mewn ffyrdd gwahanol i gael canlyniadau gwell, a
- chefnogi pobl ifanc trwy ei gwneud hi'n haws iddyn nhw symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion pan mae angen hynny arnyn nhw, fel nad oes unrhyw fylchau yn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

# 4 Defnydd effeithiol o'r ddalfa i bobl ifanc

**Mae hyn yn golygu na fydd pobl ifanc yn mynd i'r ddalfa oni bai nad oes unrhyw ffordd arall ymlaen.**

## Canlyniadau – beth rydyn ni eisiau ei weld:

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi yn y ddalfa oni bai bod gwir angen i hynny ddigwydd. Ni ddylai ddigwydd oni bai bod y drosedd yn rhy ddifrifol ar gyfer dedfryd gymunedol.

## Pam?

Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn "wlad ddi-ddalfa" ond rydyn ni'n gwybod bod yna adegau pan mae'r drosedd mor ddifrifol fel mai symud y bobl ifanc o'u cymuned yw'r peth gorau i'r dioddefwr, y gymuned a nhw eu hunain.

Dylai'r ddalfa fod yn rhywle sy'n gwneud iddyn nhw feddwl am beth y maen nhw wedi'i wneud a bod eisiau gwneud newid positif. Dylai hefyd fod yn rhywle lle gallan nhw gael yr holl gymorth sydd ei angen arnyn nhw i gael bywyd heb unrhyw droseddu. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael help ag:

- unrhyw broblemau iechyd corfforol neu iechyd meddwl,
- unrhyw anghenion dysgu neu ddiffyg cymwysterau, neu
- anghenion gofal cymdeithasol, fel problemau teuluol neu fod heb rhywle i fyw.



"Mi fuasai'n syniad da darparu mwy o gymorth i bobl ifanc sy'n troseddu ac yn mynd i'r ddalfa, a'u hatal nhw rhag aildroseddu."

Sylw Person Ifanc

## Sut byddwn ni'n gwneud hyn?

Rydyn ni eisiau canolbwyntio ar:

- wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael eu hanfon i'r lle gorau i ddiwallu eu hanghenion nhw,
- gwneud yn siŵr eu bod nhw mor agos i gartref â phosibl,
- gwneud yn siŵr bod pobl ifanc o Gymru'n cael eu gosod yng Nghymru os yw hynny'n bosibl,
- gwneud yn siŵr bod pobl ifanc o Gymru sydd mewn lleoliadau diogel yn Lloegr yn cael yr holl help sydd ei angen arnyn nhw,
- gwneud yn siŵr bod gennym ni'r lleoedd gorau yn y ddalfa ar gael yng Nghymru, er bod yna lai o bobl ifanc yn mynd i'r ddalfa, a
- gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw trwy dimau troseddau ieuenctid yn cydweithio â gwasanaethau'r ddalfa, o'u cynnwys nhw mewn cynlluniau, rhannu gwybodaeth a bod yn rhan o gyfarfodydd.

# 5 Ailsefydlu ac ailintegreiddio ar ddiwedd dedfryd

Mae hyn yn golygu y bydd plant a phobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid yn cael yr holl help a chefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw i setlo'n ôl mewn cymuned a bywyd heb unrhyw droseddu.

## Canlyniadau – beth rydyn ni eisiau ei weld:

Rydyn ni eisiau i blant a phobl ifanc gael yr holl gymorth sydd ei angen arnyn nhw pan maen nhw'n gadael y system cyfiawnder ieuenctid fel eu bod nhw'n gallu cael bywyd heb unrhyw droseddu sy'n llawn cyfleoedd.

## Pam?

Pan mae pobl ifanc yn gadael y ddalfa, maen nhw'n aml yn mynd yn ôl i'r un sefyllfa roedden nhw ynddi pan wnaethan nhw droseddu gyntaf, ac maen nhw'n mynd ymlaen i aildroseddu. Mae'n hynod bwysig bod pobl ifanc yn cael cymorth ar ôl gorffen dedfryd yn y ddalfa, neu ar ôl gadael y system cyfiawnder ieuenctid.

Rydyn ni o'r farn y dylid rhoi'r gwasanaethau cymorth yma i bobl ifanc sydd wedi bod yn y ddalfa a hefyd i'r rheiny sydd wedi bod yn bwrw dedfryd gymunedol.

Byddai hyn yn golygu y byddai mwy o bobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.



"Fe ddylech chi gael un gweithiwr wedi'i aseinio ichi o'r tîm troseddau ieuenctid sy'n aros gyda chi trwy gydol y broses, fe ddylai pethau fod yn fwy cyson."

**Sylw Person Ifanc**

## Sut byddwn ni'n gwneud hyn?

Rydyn ni eisiau canolbwyntio ar:

- wneud yn siŵr bod holl bolisïau, canllawiau a deddfwriaeth Cymru'n deall bod pobl ifanc sydd wedi bod yn bwrw dedfrydau cymunedol, yn ogystal â'r rheiny sydd wedi bod yn y ddalfa, yn derbyn cymorth,
- gwneud yn siŵr bod yr holl bolisïau a chanllawiau newydd cenedlaethol yn delio â'r problemau y mae gwasanaethau'n eu hwynebu wrth gefnogi pobl ifanc,
- gwneud yn siŵr bod yna arian a chymorth ymarferol ar gael yn rhanbarthol i wasanaethau sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc yma, a
- chefnogi gwasanaethau lleol fel bod gan bob person ifanc gynllun ar waith sydd â chysylltiadau i'r help sydd ei angen arnyn nhw i setlo yn ôl mewn bywyd cymunedol.

# Y ffordd ymlaen

Mae gennym ni gynllun sy'n manylu ar y camau i'w cymryd i roi'r strategaeth yma ar waith.

Rydyn ni eisiau i'r strategaeth yma wneud gwahaniaeth go iawn yn y canlyniadau rydyn ni'n eu gweld ym mywydau plant a phobl ifanc, felly byddwn ni'n cadw llygad ar sut mae'n gweithio.

Byddwn ni'n gwneud hyn trwy gasglu gwybodaeth am bethau fel:

- faint o bobl ifanc newydd sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid,
- faint sy'n mynd i'r ddalfa, a
- faint o aildroseddwyr sydd gennym ni.

Bydd hyn yn golygu, os byddwn ni'n gweld nad yw'r strategaeth yma'n gweithio fel rydyn ni eisiau iddi weithio, gallwn ni gamu i mewn yn gyflym a gwneud y newidiadau angenrheidiol.

## Diolch am ddarllen hwn.

Os hoffech chi wybod mwy, neu os oes gennych chi unrhyw sylwadau, ewch i:
http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/safety/youthjustice/?lang=cy

neu anfonwch e-bost atom ni yn:
kevin.burdekin@yjb.gsi.gov.uk